



Coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf: Gwrthdaro a Chreadigrwydd

Sgwrs Awr Ginio – Dehongli Bwriadau'r Wladwriaeth: y Profiad o'r Rhyfel Mawr yn y Wasg ym Mhortiwgal, 1916-18

Pryd: 14 Hydref 2016

Amser: 1 o'r gloch

Ble: Theatr Reardon Smith, Amgueddfa Genedlaethol, Caerdydd

Archebu: Mynediad am ddim

Disgrifiad: Bu ymyriad byr Portiwgal yn ystod y Rhyfel Mawr yn drychinebus: ar waethaf y cyffro cychwynnol yn 1916 pan aeth yr Almaen i ryfel gyda Phortiwgal, nid oedd Byddin Ymgyrchol Portiwgal yn barod i ymladd, ac yn Ebrill 1918 dioddefodd golledion enfawr yn ystod 'Brwydr La Lys'. Dangoswyd aneffeithiolrwydd militaraid y wlad yn y nifer mawr o ddynion a glwyfwyd. Yn y sgwrs byddaf yn ymchwilio i ymateb y wasg yn Lisbon i ddisgwyliadau a digwyddiadau'r Rhyfel. Byddaf yn dadansoddi sut y cyflwynwyd y syniadau am wrywod ac arwriaeth gyda phwyslais arbennig ar hanesion y milwyr clwyfedig a natur y gwasanaethau a'r triniaethau oedd ar eu cyfer ar ôl eu dimobio, a'r gofal a gynigwyd iddynt er mwyn gallu integreiddio'n gymdeithasol wedyn. Ymchwiliad yn benodol i'r tensiynau rhwng yr ymdeimlad cenedlaethol ynglŷn â gwrywod oherwydd y diffyg llwyddiant militaraid ac i'r ffyrdd y defnyddwyd sefyllfa'r trueiniaid er mwyn ysgogi trafodaethau rhyngwladol am ofal, ac am arwriaeth ac iawndal.

Mae Dr Rhian Atkins yn Gyfarwyddwr Pwnc ar gyfer Portiwgaleg yn Ysgol Ieithoedd Modern Prifysgol Caerdydd. Mae ei gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar ddiwylliant a llenyddiaeth Portiwgal ac mae diddordeb penodol ganddi yn hanes blynyddoedd cynharaf yr ugeinfed ganrif ym Mhortiwgal.

Nodwch, os gwelwch yn dda, bod y sgwrs yn cychwyn am 1.05 y.p.

Sgwrs Awr Ginio – y Rhyfel Mawr a Phropaganda Gwrth-Almaenaidd mewn Cerddoriaeth

Pryd: 21 Hydref 2016

Amser: 1 o'r gloch

Ble: Theatr Reardon Smith, Amgueddfa Genedlaethol, Caerdydd

Archebu: Mynediad am ddim

Disgrifiad: Ar Chwefro 3ydd 1917 torodd Arlywydd yr Unol Daleithiau, Woodrow Wilson, bob cysylltiad gyda'r Almaen a brysiodd Opera'r Metropolitan Efrog Newydd i ddilyn ei esiampl trwy hepgor unrhyw gynlluniau oedd yn ymwneud â Richard Wagner. Er bod yr ymateb hwn i gyfansoddwr mwyaf cenedlaetholgar Almaenaidd y bedwaredd ganrif ar bymtheg braidd yn eithafol, roedd yn ddealladwy. Y canlyniad oedd bod y Met trwy wneud hyn yn amddifadu ei hun o sawl cynhyrchiad fyddai wedi bod yn boblogaidd iawn eu apêl. Roedd angen llenwi'r bwlch ar frys gan ystyried y byddai dogn o rywbeth gwrth-Wagneraidd yn cynnig adfywiad ysbrydol mewn oes mor ofidus.

Bu'r dewis yn un hynod od: llwyfanwyd mewn modd operataidd waith nad oedd yn opera, sef oratorio Franz Liszt, St. Elizabeth. Ar waethaf ei naws moesolgar roedd y gwaith hwn, yn eironig iawn, bron mor Almaenaidd â'r Wagner a ddisodlwyd ganddo, gan mai esiampl o'r 'Ysgol Almaenig Newydd' oedd, ac a gyfansoddwyd gan gefnogwr mwyf brwd Wagner. Ynddo cafwyd osodiad o eiriau mewn Almaeneg a lleoliad yn Thwringia. Yn ddiau, roedd angen Americanaiddio mwy trwyadl, gan gychwyn - ac yn anarferol iawn i'r Met - gydag apwyntio aelodau o'r cast oedd yn gwbl Americanaidd. Ac er mwyn sicrhau bod i'r cynhyrchiad fwriad cenedlaetholgar addas cafwyd berfformiad o'r 'Star Spangled Banner' yn ystod yr egwyl gyntaf.

Mae'r sgwrs hon wedi'i seilio ar astudiaeth o'r derbynriad hynod a gafodd St. Elizabeth - yn sicr un o'r esiamplau mwyaf rhyfedd o bropaganda cerddorol ac un oedd heb lawer o obaith cael llwyddiant. Yng nghyd-destun hyn ceir darlun o dynged cerddoriaeth Almaenaidd yng ngwledydd y 'gelynyon' Saesneg eu hiaith yn ystod ac wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae Dr Monika Hennemann yn Gyfarwyddwr Pwnc Almaeneg a Chyd-Gyfarwyddwr y Ganolfan Ymchwil Rhyngddisgyblaethol Opera a Drama (CIRO) ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae ei diddordebau ymchwil yn canolbwyntio ar y gwrthdaro diwyllianol, trosglwyddiad a chymathiad mewn cerddoriaeth, llenyddiaeth a chelfyddyd yn y byd Almaenaidd a Seisnig yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac ym mlynnyddoedd cynharaf yr ugeinfed ganrif, yn arbennig mewn perthynas â'r cysylltiad rhwng rhwng diwylliant a phropaganda.

Sgwrs Awr Ginio – Propaganda a Recriwtio yn y Rhyfel Byd Cyntaf

Pryd: 4 Tachwedd 2016

Amser: 1 o'r gloch

Ble: Theatr Reardon Smith, Amgueddfa Genedlaethol, Caerdydd

Archebu: Mynediad am ddim

Disgrifiad: Wrth ddarllen neu wrth glywed am arwriaeth ddiamheuol yr holl filwyr a laddwyd, a phan ystyrier am foment eu dewrder a'u haberth, dylem gofio hefyd am y cymhellion gwleidyddol a barodd i'r cyhoedd ym Mhrydain gael ei thwyllo parthed cwrs y Rhyfel Mawr.

Roedd system bropaganda yn bodoli lle rhamanteiddiwyd, demoneiddiwyd a charmarweiniwyd. Yn 1916 dywedodd Lloyd George, y Prif Weinidog ar y pryd: 'Pe wyddai'r bobl y gwir mewn gwirionedd deuai'r rhyfel i ben ar unwaith. Ond wrth gwrs ni wyddant ac ni allant wybod.'

Yn ei gyflwyniad mae John Jewell yn dadansoddi rôl y llywodraeth, y cyfryngau a'r *elite* diwylliannol mwy eang wrth iddynt gyflwyno gweledigaeth o wrthryfel oedd yn wahanol iawn i beth oedd yn digwydd mewn gwirionedd ar Ffrynt y Gorllewin.

Mae Dr John Jewell yn Gyfarwyddwr Asudiaethau Isradd yn yr Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cynnwys sut mae ffoaduriaid a'r rhai sy'n chwilio am loches gwleidyddol yn cael eu portreadu yn y cyfryngau Prydeinig. Ymhlith ei ddiddordebau eraill mae'r wasg boblogaidd, hysbysebu, a phropaganda yn y cyswllt gwleidyddol.

Symposiwm: Creadigrwydd Artistig Rhyngwladol yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf

Pryd: 11-12 Tachwedd 2016

Ble: Theatr Reardon Smith, Amgueddfa Genedlaethol, Caerdydd

Archebu: [Diweddariadau](#)

Disgrifiad: Symposiwm rhyngwladol mewn cydweithrediad ag Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac a gynhelir yn yr Amgueddfa. Bydd ysgolheigion rhyngwladol o'r Deyrnas Unedig a Phrifysgolion Leuven, Heidelberg a Brown yn trafod y Rhyfel Byd Cyntaf o safbwynt cerddoriaeth, llenyddiaeth, y celfyddydau gweledol, hanes, athroniaeth a seicoleg.

Datganiad: Syr Thomas Allen

Pryd: 11 Tachwedd 2016

Amser: 7 o'r gloch

Ble: Theatr Reardon Smith, Amgueddfa Genedlaethol, Caerdydd

Archebu: £10, consesiynau £8 - [diweddariadau](#)

Disgrifiad: Datganiad o ganeuon o'r Rhyfel Byd Cyntaf gan y bariton byd-enwog gyda'i gyfeilydd, Caroline Dowdle.

Datganiad: Adlewyrchiadau Cerddorol o'r Rhyfel Byd Cyntaf

Pryd: 12 Tachwedd 2016

Amser: 1 o'r gloch

Ble: Theatr Reardon Smith, Amgueddfa Genedlaethol, Caerdydd

Archebu: Mynediad am ddim

Disgrifiad: Datganiad piano gan Iwan Llywelyn-Jones

Y Rhyfel Byd Cyntaf: Sgyrsiau yn Gymraeg

Pryd: 13 Tachwedd 2016

Amser: 12 o'r gloch

Ble: Yr Hen Lyfrgell, Yr Ais, Caerdydd

Archebu: Mynediad am ddim. Nid oes angen tocyn. Ar agor i bawb.

Disgrifiad: "'Eilun Coll": Eluned Morgan, O. M. Edwards a heddychwyr Y Deyrnas' (Prof E. Wyn James);

"'Pacifist â'r pwyslais ar y fist": T. Gwynn Jones a'r Rhyfel Mawr' (Dr LIŷr Lewis).

Cerddorfa Symffoni Prifysgol Caerdydd, 'Somme100Film: The Battle of the Somme'

Pryd: 13 Tachwedd 2016

Amser: 2 o'r gloch

Ble: Neuadd Dewi Sant, Caerdydd

Archebu: £8, 2 am £10

URL: <http://www.stdavidshallcardiff.co.uk/welsh/beth-sydd-ymlaen/cerddorfa-symffoni-prifysgol-caerdydd/>

Disgrifiad: Ymunwch â ni brynhawn Sul y Cofio i goffau'r rhai hynny a laddwyd ym Mrwydr y Somme. I gychwyn ceir trafodaeth am bropaganda ac am y frwydr gyda Dr John Jewell a Dr Toby Thacker, ac wedyn cewch wylio ffilm fud yr Amgueddfa Ymerodrol Brydeinig o 1916 gan Geoffrey Malins a J B McDowell gyda chyfeiliant byw gan Gerddorfa Symffoni Prifysgol Caerdydd o sgôr (2016) gan Laura Rossi.

Cynhelir hefyd arddangosfa berthnasol o Gasgliadau Arbennig ac Archifau @CUSpecialColls

Mae 'Somme100Film' (www.somme100film.com) yn brosiect rhyngwladol sy'n coffau canmlwyddiant Brwydr y Somme. Mae'r digwyddiad hwn yn rhan o daith canmlwyddiant Brwydr y Somme fydd yn cynnwys 100 o berfformiadau cerddorfaol rhwng Gorffennaf 1, 2016 a Gorffennaf 2017.



Supported using public funding by
**ARTS COUNCIL
ENGLAND**

FABER *ff* MUSIC



O Rhyfel at Hewddwch: Cerddoriaeth Cymod a Gobaith

Pryd: 13 Tachwedd 2016

Amser: 6 o'r gloch

Ble: Eglwys Sant Ioan Fedyddiwr, Caerdydd

Archebu: Mynediad am ddim. Croeso i bawb.

Disgrifiad: Bydd Côr Siambr Prifysgol Caerdydd yn ymuno gyda'r Parchedig Ganon Dr Sarah Rowland Jones a'r gynulleidfa yn Eglwys Plwyf y Ddinas, Sant Ioan Fedyddiwr ar Sul y Cofio mewn coffâd trwy weddi, cerddoriaeth a darlenniadau.

Cysylltu â ni: ConwayH@cardiff.ac.uk

Cynhadledd Canmlwyddiant Edward Thomas

Pryd: 19 Ebrill 2016

Disgrifiad: Bydd y digwyddiad hwn yn coffau canmlwyddiant marwolaeth y bardd a'r ysgrifennwr am natur Edward Thomas, a laddwyd ym Mrwydr Arras, Pasg 1917. Cynhelir cynhadledd o bwys ym Mhrifysgol Caerdydd lle cedwir y casgliad pwysig o lawysgrifau a llythyrau Edward Thomas. Am fwy o wybodaeth gw. <https://edwardthomas100.wordpress.com>

Cysylltu â ni: GramichK@cardiff.ac.uk